# Sut mae parhau i gynnal pethau'n Gymraeg?

BRO360

radio BECA

Dyma 6 dull posib, rhad ac am ddim, o gynnal statws y Gymraeg wrth groesawu mewnfudwyr ar eu taith i gymhathu yn ein cymunedau.

Wrth drefnu digwyddiad neu bwyllgor yn ein cymdogaeth, beth am i ni:

1. **Codi'r cwestiwn:** Sut mae parhau i gynnal pethau'n Gymraeg a chynorthwyo mewnfudwyr i gymhathu?
2. **Cynllunio:** Dewis y dull mwyaf addas, a gwneud y trefniadau
3. **Canlyniad:** Cryfhau

## Dull 1

### Popeth (bron) yn Gymraeg

Beth am gynnal digwyddiad yn uniaith Gymraeg, gan roi gair byr o groeso yn Saesneg?

**Esiampl:** Cyngerdd talentau lleol

## Dull 2

### Siarad trwy'r trwch

Symud yn gyson o'r naill iaith i'r llall heb ailadrodd

**Esiampl:** Gwasanaeth goffa

## Dull 3

### Crynhoi

Cynnal y digwyddiad yn Gymraeg, gan baratoi crynodeb Saesneg ar bapur o flaen llaw

**Esiampl:** Perfformiad drama

## Dull 4

### Cyfeillio

Siaradwr Cymraeg i eistedd gyda'r mewnfudwr a rhoi crynodeb syml a chyson

**Esiampl:** Cyfarfod Cylch Meithrin

## Dull 5

### Sylwebu ar-y-pryd

Defnyddio meic a chlustffonau i gyfleu beth sy'n digwydd ac esbonio'r cyd-destun heb gyfieithu air am air

**Esiampl:** Eisteddfod leol

## Dull 6

### Cyfieithu bro

Defnyddio meic a chlustffonau i gyfieithu ar y pryd yn anffurfiol

**Esiampl:** Sgwrs banel